OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 782 (Cy.93)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *18 Mawrth 2003* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 35(1), 36(1) a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn, cymhwyso ac effaith

**1.**—(1) Enw'r rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gynwys i Gymru yn unig.

(3) Diwygir yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) 1992(**2**) yn unol â darpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn.

### Diwygio paragraff 31A yn Atodlen 1

**2.** Diwygir paragraff 31A o Atodlen 1 (Cwynion) yn unol â'r paragraffau canlynol —

(a) ym mharagraff 6(b)(ii) yn lle'r gair "three", rhodder y gair "two"; a

(**1**) 1977 p.49; *gweler* adran 128(1), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i) i gael y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".
Diwygiwyd adran 35(1) gan O.S. 1985/39, erthygl 7; gan Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17), adran 2(1), Atodlen 1, paragraff 24 a chan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15) ("Deddf 2001"), adran 22(1), (2)(a)(i) a (ii).
Diwygiwyd adran 36(1) gan Ddeddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol 1984 (p.48), adran 5(4), Atodlen 3, paragraff 5; gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17 ) ("Deddf 2002"), adran 2(5), Atodlen 2, Rhan 1, paragraffau 1, 10(1) a (2); gan O.S.1981/432, erthygl 3(3)(a); gan Ddeddf 1990, adran 24(2); gan Ddeddf 2001, adran 20(1), (4)(a) ac adran 22(1), (3)(b)(c); gan Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"), adran 9(3); gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49), adran 25, Atodlen 2, paragaff 4; gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (p. 46), adran 41(10), (12), Atodlen 2, paragraff 12, Atodlen 3, Rhan 1.
Diwygiwyd Adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2); gan Ddeddf 1999, adran 65(1), Atodlen 4, paragraffau 4, 37(1) a 6; gan Ddeddf 2001, adran 67(1), Atodlen 5, Rhan 1, paragraffau 5(1) a 13(b) a chan Ddeddf 2002, adran 6(3)(c).
O ran Cymru, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 35(1), 36(1) a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo, O.S. 1999/672.

(**2**) O.S. 1992/661, yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S.1996/704 sy'n mewnosod paragraffau 31A, B ac C yn Atodlen 1.

(b) ym mharagraph (6)(c) yn lle'r ffigur "10", rhodder y ffigur "20".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D.Elis-Thomas*

18 Mawrth 2003

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) 1992 sy'n rheoleiddio'r telerau ynghylch darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

Mae Rheoliad 2 yn cynnwys darpariaethau sy'n diwygio'r cyfnod o amser sydd gan ddeintyddion i ymateb i gwynion a wneir gan neu ar ran cleifion neu gleifion blaenorol o dan drefn gwyno'r practis. Caiff yr amser a ganiateir i ddeintyddion gydnabod cwynion yn ffurfiol ei leihau o dri diwrnod i ddau ddiwrnod (ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith a gwyliau banc), tra caiff yr amser a ganiateir i roi i achwynydd grynodeb ysgrifenedig o ymchwiliadau a chasgliadau ei gynyddu o 10 i 20 diwrnod gwaith (ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith a gwyliau banc).